
Gwybodaeth Rhaglenni Programme Information – S4C

Dydd Sadwrn - Saturday 22/11/2025

06:00 CYW (R) (HD)

Rhaglenni llawn hwyl i'r plant lleiaf.

Fun-filled programmes for younger viewers.

06:00 EGIN BACH - Direfion Gwllt a Llyfrgell y Dail (R) (S) (SC) (HD)

Mae Nano a Septo'n cael hwyl gyda diferion gwllt, ac mae Nano eisiau casglu a chatalogio'r dail sydd wedi cwmpo, ond 'dyw Tera ac Ato'n ddim help o gwbl!

Nano and Zepto have fun with dewdrops, and Nano wants to collect and catalogue the fallen leaves, but Tera and Atto are less than helpful.

06:05 SAM TÂN - Fflam o'r Gorffennol (R) (SC) (HD)

Rhaid i Brif Swyddog Steel gastio Norman yn ei sioe gerdd ddiweddar. Mae Norman yn achosi problemau o'r funud gynta a diolch i'r drefn bod Sam Tân wrth law.

Steel has to cast Norman in his new musical but Norman creates problems from the start. Thank goodness that Sam Tân is at hand.

06:15 EIN BYD BACH... - Pethau Poeth (R) (S) (SC) (HD)

Pethau Poeth – yn y bennod yma byddwn yn dysgu am yr holl bethau poeth yn ein byd bach ni, o'r haul i losgfynyddoedd, ac i un o'r afonydd mwyaf twym yn y byd sef, Shanay-Timpishka ym Mheru. Byddwn yn dysgu am dymheredd ein corff hefyd.

Hot Things. In this episode we'll learn all about the hot things in our little world, from volcanoes to one of the hottest rivers in the world, the Shanay-Timpishka in Peru. We'll also learn about the temperature of our bodies.

06:25 PABLO - Popeth Pîn-afal (R) (HD)

Mae gan Pablo ei ffordd ei hun o weld y byd, a phan mae o'n gweld llun pîn-afal, nid yw'n medru meddwl am ddim byd arall. Yn fuan, mae afalau pîn yn ymddangos led-led y byd celf.

Everything Pineapple Pablo sees a picture of a pineapple he gets the taste in his mouth and it won't go away. Soon everything and everyone in the Art World looks and tastes like pineapple too!

06:40 DEIAN A LOLI - ...a Gwlad y Da Das (R) (S) (SC) (HD)

Cyfres am yr efeilliaid direidus a'u pwerau hudol. Mae Deian a Loli yn mynd am antur i wlad y Da-das - gwlad lle mae popeth wedi ei wneud o losin! Maent yn cwrdd â Brenhines y da-das ac yn sylweddoli'n fuan iawn nad yw pethau cweit mor felys â maent yn ymddangos!

Series about the mischievous twins and their magical powers. Deian and Loli go on an adventure to Gwlad y Da-das - a land where everything is made of candy! They meet the Candy Queen, and soon realize that everything is not quite as sweet as it may seem!

06:55 DREIGIAU CADI - Dreigiau Daf (R) (S) (SC) (HD)

Mae Cadi a'r dreigiau yn mynd i weld eu hoff raglen yn cael ei ffilmio.

Cadi and friends go to watch their favourite programme being filmed.

- 07:10 PATROL PAWENNAU - Cŵn yn achub robosawrws (R) (HD)**
 Beth sydd wedi dod a'r Robosawrws yn fyw?
When a homemade robotic dinosaur comes to life, the pups need to find him, stop him, and bring him home.
- 07:25 BENDIBWMBWLS - Ysgol Bro Preseli (R) (S) (SC) (HD)**
 Mae Ben Dant ar antur newydd i ailgylchu, a throi sbwriel yn sbeshal, a gwastraff yn gampwaith. Heddiw bydd e'n ymuno â disgyblion Ysgol Bro Preseli, Crymymch i greu trysor penigamp.
Ben Dant is on a new adventure to recycle and turn rubbish into something special and waste into a masterpiece. Today, he will join the pupils of Ysgol Bro Preseli, Crymymch to create a superb treasure.
- 07:35 CRAWC A'I FFRINDIAU - Eau de Crawc (R) (S) (SC) (HD)**
 Mae Crawc yn penderfynu creu ei bersawr chwaethus ei hun. Ond pan fydd y gwencïod yn ei ddifetha ac yn cymryd drosodd y Crawcdy, y persawr newydd drewllyd sy'n ei helpu i adennill ei gartref.
Toad decides to create his own stylish cologne. But when the weasels ruin it and then occupy his home, is the new stinky cologne the answer to regaining Toad Hall?
- 07:45 NE-WFF-ION (R) (S) (SC) (HD)**
 Ar y rhaglen heddiw cawn ddysgu mwy am y bocsiwr Cuthbert Taylor o Ferthyr, a pham na chafodd fod yn bencampwr oherwydd hiliaeth
On today's program we learn more about the boxer Cuthbert Taylor from Merthyr and why he was not able to be champion.
- 08:00 STWNSh SADWRN BYW (HD)**
 Jack, Lloyd, Jed a Cadi sy' yn y stiwdio, gyda llond lle o gemau, LOL-ian ac ambell pei Stwnsh!
Jack, Lloyd, Jed and Cadi are in the studio with games and the odd Stwnsh pie!
- 08:10 LARFA - Caws (R) (HD)**
 Mae 'na hwyl a sbri gyda chaws y tro hwn!
There's fun and games with cheese this time!
- 08:20 LEGO ® FFRINDIAU: AMDANI FERCHED! - Ymosodiad yr Alfabots (R) (HD)**
 Mae Dr. Alfa yn credu'n gryf yn ei robotiaid, Yr Alfabots ac mae rhannau helaeth o'r ddinas yn cael eu rheoli gan yr Alfabots. Mae'r Dr. yn colli rheolaeth o'i Alfabots sy'n achosi llanast enfawr.
The girls expose how hot Alvah's new Alvahbots really are.
- 08:45 OI! OSGAR - Trysor Roco (R) (HD)**
 Anturiaethau Oscar y fadfall a'i ffrindiau yn yr anialwch chwilboeth - lle mae'r dyddiau yn hir a dim llawer i'w wneud. I oroesi mae angen dwr, bwyd, cysgod a rhywbeth i'w diddanu - cyn i'r diflastod eu lladd nhw!
A cartoon following the adventures of Oscar the lizard and friends in the arid desert - where the days are long and there's not much to keep them occupied. To survive they need water, shade, food and something to do - to avoid dying of boredom!
- 09:35 MABINOIGI A MWY - Dewi Sant (R) (S) (SC) (AD) (HD)**
 Fersiwn criw Stwnsh o hanes nawddsant Cymru - Dewi Sant gyda digon o chwerthin, canu, dawnsio, rapio ac ambell i wyrth!
Join the Stwnsh team for their version of the story of Saint David the patron saint of Wales, with lots of laughter, singing, dancing, rapping and a few miracles!

10:00 ITOPIA (R) (S) (SC) (AD) (HD)

Cyfres ddrama sci-fi. Mae Lwsi yn sylweddoli nad yw Ems na Zac wedi bod yn onest gyda hi ac mae hi'n dod wyneb yn wyneb â'r person olaf mae hi eisiau cwrdd. Ac ar ôl iddi hi a Sara cael eu cloi yn Uned Biotech Itopia, mae Alys ar fin cael sioc hefyd. *Mystery sci-fi drama series. Lwsi realises that neither Ems nor Zac have been truthful to her, and she comes face to face with the last person she wants to meet. And after being locked in Itopia's Biotech Unit, there's a surprise in store for Alys as well.*

10:20 ITOPIA (R) (S) (SC) (AD) (HD)

Mae haid o 'Zeds' yn ymosod ar Ysgol Syr Ifan Powell. Mae 'Zeds' hefyd yn bla yn Itopia – a fydd Alys, Sara a Brian yn gallu dianc mewn pryd? Yn y cyfamser mae Lwsi mewn cyfng gyngor – beth fydd hi'n penderfynu gwneud? *Ysgol Syr Ifan Powell is under siege from a horde of 'Zeds'. Itopia is also infested with 'Zeds' – will Alys, Sara and Brian escape in time? In the meantime, Lwsi faces a dilemma – what will she decide to do? The final episode of the mystery sci-fi series.*

10:40 PWYSUTPAM? - Olew (R) (S) (SC) (AD) (SL) (HD)

Cyfres wyddoniaeth sy'n mynd ati i egluro sut mae'r byd o'n cwmpas yn gweithio. Mae olew yn sylwedd dadleuol. Ar yr un llaw, mae wedi pweru datblygiad y byd diwydiannol, ond ar y llaw arall, yn un o'r prif resymau dros gynhesu byd eang. Y gwyddonydd Bedwyr ab Ion Thomas sy'n cymryd golwg agosach ar yr hylif tywyll o grombil y Ddaear. *Science show that aims to explain how the world around us actually works. Oil is a controversial substance. On the one hand, it has powered the development of the industrial world, but on the other, is one of the main drivers of global warming. Scientist Bedwyr ab Ion Thomas takes a closer look at the dark liquid drilled from the Earth's crust.*

11:00 HEN DŶ NEWYDD - Bow Street (R) (S) (SC) (AD) (SL) (HD)

Y tro hwn, mae ein 3 cynllunydd creadigol sef Gwyn Eiddior, Mandy Watkins a Carwyn Lloyd Jones yn wynebu'r her o adnewyddu 3 ystafell mewn cartref teuluol ym Mhenrhyn Coch. Ni fydd gan y teulu syniad sut hwyl geith y tri a gyda chyllidebau gwahanol fe fydd tipyn o sialens yn eu hwynebu - a fydd ein tîm adnewyddu yn llwyddo i drawsnewid hen dŷ yn HEN DŶ NEWYDD? *This time, our 3 creative designers-Gwyn Eiddior, Mandy Watkins and Carwyn Lloyd Jones face the challenge of transforming 3 rooms in a family home in Penrhyn Coch. The family have no idea of the designs and the designers have different budgets to work from -so who knows what the end result will be? Will our make-over team succeed in transforming an old house into a new pad?*

12:00 CEFN GWLAD (R) (S) (SC) (SL) (HD)

Eleni mae Castle Garage, Llanymddyfri yn dathlu canmlwyddiant busnes teuluol y Jonesiaid. Ian, y drydedd genhedlaeth sydd bellach wrth y llyw a hynny ar ôl iddo ddychwelyd adref ar ôl gyrfa yn teithio'r byd fel mecanic Formula 1. Ifan Jones Evans sy'n ymweld â'r garej bach yng nghanol tre'r porthmyn er mwyn dysgu cyfrinach ei hirhoedledd -- staff a chwsmeriaid hapus a ffyddlon. *This year Castle Garage, Llandoverly celebrates its centenary as a business owned and run by the Jones family. Ian, the third generation of the Jones family is now in charge having returned to his hometown after years of travelling the world as a Formula 1 mechanic. Ifan Jones Evans visits the showroom and garage right at the heart of the old drovers' town to learn the secret of their long-term success – loyal and contented staff and customers.*

12:30 POBOL Y MÔR (R) (S) (SC) (SL) (HD)

O doriad gwawr ym Mhwynt Leinws, Ynys Môn i fachlud haul ar bier Llandudno cawn dreulio diwrnod ar lan y môr yng nghwmni Nia y naturiaethwr, Stan y dyn cychod, Carole y nofwraig wyllt a'r perchnogion siop Robin ac Eira.

From first light at Pwynt Leinws to sunset on Llandudno Pier - a day at the seaside in the company of environmentalist Nia, boatman Stan, wild swimmer Carole and Pier shop owners Robin & Eira.

13:00 TŶ FFIT (R) (S) (SC) (SL) (HD)

Rhaglen arbennig yn dathlu taith trawsnewid Dylan, Sharon, Arwel, Gwawr a Becky wrth i ni edrych yn ôl dros ddeufis o ddilyn cynllun iach Tŷ Ffit. Bydd Lisa Gwilym yn holi, eu mentoriaid yn rhoi eu cyngor olaf a Dr Sherif - meddyg y gyfres yn rhannu canlyniadau meddygol – beth fydd effaith dilyn cynllun iach Tŷ Ffit dros ddeufis ar iechyd y pump?

The season finale celebrates Dylan, Sharon, Arwel, Gwawr and Becky's transformative journey as we look back over two months on Tŷ Ffit's healthy diet and fitness plan. Lisa Gwilym chats with the Clients, the Mentors give one last piece of advice and Dr Sherif reveals the final results on the health of the five after following Tŷ Ffit's health plan over the last two months.

14:00 CARTREFI CYMRU - Tai Anarferol (R) (S) (SC) (SL) (HD)

Cyfres lle bydd Aled Samuel a'r hanesydd adeiladau, Bethan Scorey yn edrych ar wahanol fathau o gartrefi yng Nghymru – o ffermdai i dai newydd, tai teras i dai anarferol. Byddwn yn agor y drws ar hanes pensaernïol Cymru. Yn y rhaglen hon byddwn yn edrych ar dai anarferol.

A series where presenter Aled Samuel and buildings historian Bethan Scorey will be taking a look at Wales' different types of homes – from farmhouses to newbuilds, terraced to Unusual houses. We'll be exploring Wales' rich architectural history. In this programme we'll be focusing on unusual houses.

14:30 RYGBI: GEMAU'R HYDREF - CYMRU V SELAND NEWYDD (HD)

Yn y drydedd o bedair gêm ryngwladol yr hydref a chwaraeir gan Gymru yn 2025, byddant yn chwarae yn erbyn Seland Newydd yn y Stadiwm Principality yng Nghaerdydd. C/G 15.10.

In the third of four autumn internationals to be played by Wales in 2025, they will play New Zealand at the Principality Stadium in Cardiff. K/O 15.10.

17:45 NEWYDDION A CHWARAEON (S) (HD)

Newyddion a chwaraeon y penwythnos.

Weekend news and sport.

18:00 SGORIO: CAERFYRDDIN V BAE COLWYN (S) (HD) (EC)

Gêm fyw o drydedd rownd Cwpan Cymru JD. Bydd Caerfyrddin o Gynghrair y De yn croesawu Bae Colwyn o'r Cymru Premier JD i Barc Waun Dew yn yr ornest gyntaf erioed rhwng y ddau glwb. C/G 18.15.

Live football match from the JD Welsh Cup third round. Carmarthen Town of the JD Cymru South will welcome Colwyn Bay from the JD Cymru Premier to Richmond Park in the first ever meeting between the two clubs. K/O 18.15.

20:20 AUR Y NOSON LAWEN (R) (S) (SC) (HD)

Ers 1982 mae Noson Lawen wedi'n diddanu gydag amryw eang o dalentau arbennig Cymru, a sicrhau lle yng nghalonnau'r genedl. Dyma olwg ffraeth a hwyliog dros gyfresi'r gorffennol a chyfle i adnabod hen wynebau, rhyfeddu ar siediau llawn o dalentau Cymru a gweld man cychwyn sawl un o sêr mwyaf y genedl. Yn hel atgofion am eu hamser ar y llwyfan, ac yn pendroni beth ddigwyddodd i'r bêls bydd Ifan Gruffydd, Gillian Elisa, Eilir Jones, Margaret Williams a llawer mwy.

Since 1982 Noson Lawen has delighted us with a variety of Welsh talents and found a place in the nation's heart. This programme is a light-hearted and affectionate look back at this long-running series where we get to reminisce, pick out familiar faces and wonder at the shed-full of Welsh talent - the starting point for many of the nation's brightest stars.

21:20 STIWDIO 24/7 (R) (S) (SC) (HD)

Yn yr ail o'r gyfres newydd Stiwdio 24/7 bydd Molly Palmer yn cyflwyno detholiad o fandiau mwyaf cyffrous y Sîn Roc Gymraeg. Y tro yma bydd Sywel Nyw yn perfformio dwy gân, bydd DJ Dilys yn ymuno yn y stwdio i drafod ei orsaf radio newydd, Radio Sudd, ac fe fydd perfformiadau hefyd gan Lafant a Dafydd Owain.

In the second of the new series Stiwdio 24/7 Presenter Molly Palmer introduces some of the best bands and artists from the current Welsh rock and pop scene. This time we hear two songs by Sywel Nyw, DJ Dilys joins Molly in the studio to discuss his new radio station, Radio Sudd, and we hear performances from Lafant and Dafydd Owain.

21:55 IAITH AR DAITH - ALUN WYN JONES (R) (S) (SC) (AD) (HD)

Y cyn-chwaraewr rygbi rhyngwladol Alun Wyn Jones sydd yn mynd a'r Iaith Ar Daith y tro hwn. Yn cadw cwmni iddo ar hyd ei daith i ail-gysylltu gyda'i wreiddiau teuluol a'r Gymraeg mae'r actor Steffan Rhodri.

Former international rugby player Alun Wyn Jones embarks on a road trip across Wales to learn the Welsh language. Actor, Steffan Rhodri will mentor Alun as he reconnects with his Welsh language roots and ancestry.

22:55 RADIO FA'MA - Llanberis (R) (S) (SC) (AD) (HD)

Rhifyn arall o'r rhaglen radio sydd hefyd yn rhaglen deledu wrth i Tara Bethan a Kris Hughes sgwrsio gyda phobl Dyffryn Peris am brofiadau sydd wedi effeithio ar eu bywydau.

Another episode of the radio programme that's also a television programme as Tara Bethan and Kris Hughes chat with the people of Dyffryn Peris about experiences that have affected their lives.

00:00 DIWEDD/CLOSE

Gwybodaeth Rhaglenni Programme Information – S4C

Dydd Sul - Sunday 23/11/2025

06:00 CYW (R) (HD)

Rhaglenni llawn hwyl i'r plant lleiaf.

Fun-filled programmes for younger viewers.

06:00 OLOBOBS - Sioe Ddail (R) (HD)

Ar ôl i bawb ymuno â'r dail yn eu sioe ddail does neb ar ôl i wyllo'r sioe, felly mae'r Olobobs yn mynd ati i greu cynulleidfa.

When everyone joins in at the Leaf Show there's no one left in the audience, until the Olobobs create an audience.

06:05 CARU CANU A STORI - Daw Hyfryd Fis... (R) (S) (SC) (HD)

Stori am aderyn sy'n dod o hyd i wy ychwanegol yn ei nyth sydd gan Cari i ni heddiw.

Today, Cari has a story about a bird that finds an extra egg in its nest.

06:15 CHWEDLAU TINGA TINGA - Pam fod Fflamingo yn Sefyll ar un goes (R) (S) (HD)

Straeon lliwgar o Affrica am anifieliaid y byd. Heddiw cawn ddarganfod pam mae Fflamingo yn sefyll ar un goes.

Cololurful stories from Africa about the animals of the world. Today we discover why Flamingo stands on one leg.

06:30 FFERM FACH - Pys (R) (S) (SC) (HD)

Mae Leisa angen pysen i chwarae gêm bêl-droed gyda gwelltyn. Mae Hywel, y ffermwr hud, yn ei thywys i Fferm Fach i ddangos lle mae'r pys yn cuddio ar y fferm.

Leisa needs a pea to play blow football. So, Hywel, the magical farmer takes her to Fferm Fach and shows her where the peas are hiding on the farm.

06:45 ODO - Twmpath Dawns (R) (S) (SC) (HD)

Cartwn hyfryd am gwddihw bach o'r enw Odo a'i ffrindiau yn y goedwig.

Lovely cartoon about a little owl called Odo and his woodland friends.

06:55 ANNIBENDOD - Hadau Pw Pw (R) (S) (SC) (HD)

Mae Gwyneth Gwrtaith wedi meddwl am gynllun busnes newydd sbon: gwerthu Hadau Adar Pw Pw Pwerus a buan iawn mae Dad, Anni, Cai a Bela Drws nesa'n dod i ddeall pwser pw pw yr adar lleol!

Gwyneth Gwrtaith has thought of a new business plan: sell Powerful Poo Seeds and Dad, Anni, Cai and Bela Drws Nesa soon realise the power of the local birds poo!

07:05 PENTRE PAPUR POP - Llwybr Beics-pop (R) (SC) (HD)

Ar yr antur popwych heddiw mae'r ffrindiau'n mynd o amgylch llwybr beic anhygoel. Ond pan mae Mabli ofn disgyn oddi ar ei beic newydd, fydd hi'n gallu gorffen y llwybr gyda'i ffrindiau?

On today's popstastic adventure, the friends are riding around an amazing bicycle trail! But when Mabli worries that she might fall off her new bike, will she complete the trail with her friends?

- 07:15 HELP LLAW – Alex - Y Stiwdio Dywydd (R) (S) (SC) (HD)**
 Mae ymbarel Tanwen, cyflwynydd y tywydd wedi torri. Mae hi'n gwneud apêl yn fyw ar y teledu yn ystod y bwletin, ac felly aiff Harri ac Alex draw ar frys i'w helpu. Ond fel arfer, dyw Harri'n gwneud dim ond llanast.
Tanwen, the weather forecaster's, umbrella has broken. She makes an appeal live on television during the weather bulletin, Harri and Alex rush to help her. But as usual, Harri only makes a mess.
- 07:30 TOMOS A'I FFRINDIAU - Profiad Newydd Sbon (R) (SC) (HD)**
 Mae Tomos yn cludo cerddor enwog ar draw Sodor ac, yn y broses, mae Tomos yn ennill gwerthfawrogiad newydd ohono'i hun. _
Tomos carries a famous musician across Sodor, gaining a new appreciation of himself.
- 07:40 DAL DY DDANNEDD - Ysgol Dewi Sant (R) (S) (SC) (HD)**
 Timau o Ysgol Dewi Sant sy'n ymuno â Pwdryn a Melys i chwarae llond trol o gemau lliwgar! Pa dîm all gasglu y mwya o ddannedd glân ac ennill Tlws Dani Dant heddi?
Teams from Ysgol Dewi Sant join Pwdryn and Melys to play a series of candyland themed games. The challenge is to collect as many clean teeth as possible and win the Dani Dant Trophy!
- 07:55 GUTO GWNINGEN - Hanes Achub y Cwt Coed (R) (SC) (HD)**
 Mae Guto Gwningen yn cael ei orfodi i ddatgelu lleoliad y ty coeden gyfrinachol i Flops a Mops.
Guto Gwningen is forced to reveal the location of the secret treehouse to Flops and Mops.
- 08:10 KIM A CAI A CRANC (R) (S) (SC) (HD)**
 Ymunwch â Kim a Cai ar antur hudolus a chwareus sy'n llawn dawns a cherddoriaeth wrth iddyn nhw chwilio am gragen newydd i Cranc!
Join Kim and Cai on a magical and playful adventure full of dance and music as they search for a new shell for Cranc !
- 08:25 JONI JET - Gwersylla Gwyllt (R) (SC) (HD)**
 Wedi i dad fynnu penwythnos o wersylla di-sgrîn rhaid i'r Jet-lu wynebu Peredur Plagus a'r Cwerylod heb eu dyfeisiadau, gan ddibynnu ar reddf a synnwyr yn unig.
After dad demands a weekend of screen-free camping, the Jet-lu must face Peredur Plagus and the Cwerylod without their inventions, relying only on instinct and sense.
- 08:35 PARC GLAN GWIL (R) (S) (SC) (HD)**
 Mae Hywel Hwyl yn glanhau cartrefi'r anifeiliaid, ond mae'n cael damwain gyda Madam Fflwffen y gwningen. Daw Dion Diogelwch i'w achub ac mae Hywel yn sylweddoli fod angen iddo fod yn ofalus a chael bocs Cymorth Cyntaf wrth law.
Hywel Hwyl cleans the animals' homes, but has an accident with Madam Flwffen the rabbit. Dion Diogelwch comes to his rescue and Hywel realises that he needs to be careful and have a First Aid box handy.
- 08:50 PENBLWYDDI CYW (S) (SC) (HD)**
 Cyfle i edych 'nôl dros rai o gyfarchion pen-blwydd yr wythnos.
A look back at some of this week's birthday greetings.

09:00 PROSIECT PUM MIL - Caffi Hafan, Bangor (R) (S) (SC) (AD) (HD)

Gyda dim ond 5 mil o bunnoedd yn y pot mae Emma Walford a Trystan Ellis-Morris ym Mangor yn helpu criw o Gaffi Hafan Age Cymru . Gyda mewnbwn y cynllunydd crefftus Gwyn Eiddior.

With only 5 thousand pounds in the pot - Emma Walford and Trystan Ellis-Morris are in Bangor, helping the customers and staff at Caffi Hafan Age Cymru; with the input of talented designer Gwyn Eiddior.

10:00 HYDREF GWYLLT IOLO - Glan y Môr (R) (S) (SC) (HD)

Cyfres gyda Iolo Williams am fywyd gwyllt gorau'r hydref. Brain coesgoch yn dawnsio, piod y môr yn cael eu dal mewn storm, carlwm yn hela, morloi bach yn cael ei geni a chreaduriaid godidog eraill arfordir Cymru.

Series with Iolo Williams including his guide to autumn wildlife. Choughs dance above the sea, oystercatchers are caught in a storm, seals are both giving birth and mating, a stoat is hunting, and other fantastic wildlife on the Welsh coast.

11:00 CAEAU CYMRU - Trawsfynydd (R) (S) (HD)

Brychan Llyr sy'n datgloi cyfrinachau ein cymunedau gwledig, drwy ymchwilio'r enwau ar ein tiroedd. Gyda'r hanesydd Rhian Parry yn gwmni iddo, fe fydd yn canolbwyntio ar diroedd hen ystâd Gelli Iorwerth ger Trawsfynydd ac yn trafod casgliad o hen enwau diddorol ar gaeau fferm Plas Capten. Cawn hefyd ddarganfod pwysigrwydd hen garreg fedd ar ffordd Rufeinig Sarn Helen a dysgu am hen olion amaethyddol ar diroedd fferm Yr Ysgwrn, ac ar y ffriddoedd uwchben. Darlledwyd y gyfres gyntaf yn 2014.

In this 2014 series, Brychan Llyr unlocks the stories of our countryside communities, by researching the names we use for our fields and land. With historian Rhian Parry, he looks at the old Gelli Iorwerth estate near Trawsfynydd, which has a collection of interesting field names. We discover the importance of an ancient gravestone on the edge of the old Roman Road, Sarn Helen, and the significance of some old agricultural plough markings at and around local farm 'Yr Ysgwrn'.

11:30 DECHRAU CANU DECHRAU CANMOL - Stafell Fyw (R) (S) (SC) (HD)

Rhodri Gomer sydd yng Nghaerdydd i ddysgu mwy am elusen sy'n taclo dibyniaeth, ymddygiad niweidiol a phoen emosiynol. Cawn berfformiad gan Gôr Canna a mwynhau gwledd o emynau.

Rhodri Gomer visits Cardiff to learn about a charity that tackles addiction and harmful behaviours and offers emotional support. We enjoy a performance by Côr Canna and hymns from around Wales.

12:00 IAITH AR DAITH - Callum Scott Howells (R) (S) (SC) (AD) (HD)

Yr actor o'r Cymoedd, Callum Scott Howells sydd yn mynd ar Iaith Ar Daith y tro hwn. Mae e'n ail-gydio gyda'i Gymraeg ynghyd â darganfod cysylltiadau teuluol sy'n cryfhau ei berthynas gyda'r iaith, yng nghwmni ei fentor, yr actor a cherddor Lisa Jên Brown

In this episode we follow actor Callum Scott Howells on his Iaith ar Daith as he reconnects with the Welsh language whilst on a road trip across Wales. His mentor, actor and musician Lisa Jên Brown, keeps him company as he discovers a family history that deepens his connection to the language.

13:00 ALUN, CHRIS A KIRI YN SELAND NEWYDD (R) (S) (SC) (HD)

Mae'r cyflwynydd Alun Williams, y cogydd Chris Roberts a'r comediwr Kiri Pritchard McLean yn parhau ar eu hantur fythgofiadwy yn Seland Newydd gan symud o ynys y De i'r Gogledd. Ar ôl ceisio pysgota am koura mewn moroedd garw, bydd y tri yn blasu gwin enwog ardal Marlborough, cyn ymweld â'r unig far Cymreig yn hemisffer y De ac ymarfer rygbi gyda thîm merched lleol.

Presenter Alun Williams, chef Chris Roberts, and stand-up comic Kiri Pritchard McLean embark on the next leg of their New Zealand adventure. Battling rough seas, they go fishing for koura before indulging in wine tasting amidst the vineyards of the Marlborough region. Their adventure takes an unexpected turn as they seek out the Southern Hemisphere's only Welsh bar, followed by a lively training session with a local women's rugby team.

14:00 STIWDIO 24/7 (R) (S) (SC) (HD)

Yn y drydedd o'r gyfres newydd STIWDIO 24/7 bydd Molly Palmer yn cyflwyno detholiad o'r bandiau mwyaf cyffrous yn y Sîn Roc Gymraeg sy'n rhyddhau cynnyrch newydd. Y tro yma bydd Gruff Rhys yn perfformio dwy gân o'i albym newydd "Dim Probs", bydd y ddeuawd werin Elin a Carys yn canu ac fe fydd Sage Todz yn y stiwdio.

In the third of the new series STIWDIO 24/7 Presenter Molly Palmer introduces some of the best bands and artists from the current Welsh rock and pop scene (bands who are releasing new tracks or albums) This time we hear two songs from Gruff Rhys from his new album "Dim Probs", the folk duo Elin and Carys perform and Sage Todz joins Molly in the studio

14:30 AM DRO! (R) (S) (SC) (HD)

Yn y bennod hon awn ar deithiau bendigedig ar arfordir Bae Ceredigion a Phen Llyn, yn ogystal â thref hanesyddol Pontypridd a Mynydd y Cribarthy yng Nghwm Tawe. Lynda o Llangrannog, Kai o Bontypridd, Dyfed o Bwllheli a Lucy o Abercraf sy'n mynd â ni 'Am Dro' y tro hwn.

We'll be exploring the coastal paths of Cardigan Bay and the Llyn Peninsula as well as taking a stroll through Pontypridd and climbing the Sleeping Giant in the Swansea Valley. Lynda from Llangrannog, Kai from Pontypridd, Dyfed from Pwllheli and Lucy from Abercraf lead the walks this week.

15:30 FFASIWN DREFN (R) (S) (SC) (AD) (HD)

Yn y gyfres hon bydd y cyflwynydd Lara Catrin a'r trefnydd proffesiynol Gwenan Rosser yn rhoi trefn ar gypyrddau dillad a lloffttydd ar hyd a lled Cymru. 'Lle i bopeth a phopeth yn ei le' yw'r nod. Yr wythnos hon cwpwrdd dillad Alys Mererid o Gaerdydd sy'n cael ei drawsnewid.

In this series presenter Lara Catrin and professional organiser Gwenan Rosser will be sorting wardrobes and bedrooms all over Wales. 'A place for everything and everything in its place' is the aim. This week we'll be decluttering and transforming Alys Mererid's wardrobe at her home in Cardiff.

16:00 AUR Y NOSON LAWEN (R) (S) (SC) (HD)

Ers 1982 mae Noson Lawen wedi'n diddanu gydag amryw eang o dalentau arbennig Cymru, a sicrhau lle yng nghalonnau'r genedl. Dyma olwg ffraeth a hwyliog dros gyfresi'r gorffennol a chyfle i adnabod hen wynebau, rhyfeddu ar siediau llawn o dalentau Cymru a gweld man cychwyn sawl un o sêr mwyaf y genedl. Yn hel atgofion am eu hamser ar y llwyfan, ac yn pendroni beth ddigwyddodd i'r bêls bydd Ifan Gruffydd, Gillian Elisa, Eilir Jones, Margaret Williams a llawer mwy.

Since 1982 Noson Lawen has delighted us with a variety of Welsh talents and found a place in the nation's heart. This programme is a light-hearted and affectionate look back at this long-running series where we get to reminisce, pick out familiar faces and wonder at the shed-full of Welsh talent - the starting point for many of the nation's brightest stars.

17:00 Y SIOE 2025 - Uchafbwyntiau'r Wythnos (R) (S) (HD)

Cyfle i edrych nôl dros uchafbwyntiau'r wythnos o'r Sioe Fawr 2025.

A chance to look back over the highlights of the Royal Welsh Show 2025.

18:00 CEFN GWLAD - Castle Garage (R) (S) (SC) (AD) (HD)

Eleni mae Castle Garage, Llanymddyfri yn dathlu canmlwyddiant busnes teuluol y Jonesiaid. Ian, y drydedd genhedlaeth sydd bellach wrth y llyw a hynny ar ôl iddo ddychwelyd adref ar ôl gyrfa yn teithio'r byd fel mecanic Formula 1. Ifan Jones Evans sy'n ymweld â'r garej bach yng nghanol tre'r porthmyn er mwyn dysgu cyfrinach ei hirhoedledd -- staff a chwsmeriaid hapus a ffyddlon.

This year Castle Garage, Llandovery celebrates its centenary as a business owned and run by the Jones family. Ian, the third generation of the Jones family is now in charge having returned to his hometown after years of travelling the world as a Formula 1 mechanic. Ifan Jones Evans visits the showroom and garage right at the heart of the old drovers' town to learn the secret of their long-term success – loyal and contented staff and customers.

18:30 POBOL Y CWM OMNIBWS (S) (AD) (HD)

Rhifyn omnibws yn edrych nôl ar ddigwyddiadau yng Nghwmderi dros yr wythnos ddiwethaf. Gydag isdeitlau Saesneg ar y sgrîn

Omnibus edition looking back at events in Cwmderi over the past week. With on-screen English subtitles.

19:15 NEWYDDION A CHWARAEON (S) (HD)

Newyddion a chwaraeon y penwythnos.

Weekend news and sport.

19:30 DECHRAU CANU DECHRAU CANMOL - Moliant y Maes (S) (SC) (HD)

Ar drothwy'r Ffair Aeaf yn Llanelwedd, Nia Roberts sy'n cyflwyno gwledd o emynau o wasanaeth Moliant y Maes yn y Sioe Frenhinol ym mis Gorffennaf.

On the eve of the Winter Fair in Llanelwedd, Nia Roberts presents a feast of hymns from a special 'Moliant y Maes' service at the Royal Welsh showground in July.

20:00 SEAN FLETCHER: CYFRINACHAU'R LLONG (S) (SC) (HD)

Bydd Sean Fletcher yn darganfod peryglon oedd yn wynebu Llong Casnewydd yn hwyllo i Bortiwgal yn y bymthegfed ganrif; a dod ar draws perchennog newydd i'r llong; ffigwr blaenllaw a chyfrwys Rhyfeloedd y Rhosynnau.

Ground-breaking science is helping to shed light on the mysterious 15th Century Newport Ship and leads Sean Fletcher to an intriguing connection to one of Europe's most turbulent wars, the Wars of the Roses.

21:00 STAD (S) (SC) (HD)

Mae'r angladd yn rhwygo'r Ghurkas. Rhaid i Tracy fentro **er mwyn ei phlant** tra fod problem arswydus Nikki yn tynhau amdani. Mae parti rhyfedd yn addo talu ar ei ganfed. Carys yn rhannu gwirionedd ei chalon gyda Charlie am Neil.

The funeral tears the Ghurka family apart. Tracy takes a chance for the sake of her children and Nikki's problem gets worse. A weird party promises a big pay-off. Carys confesses her heartbreaking secret about Neil to Charlie.

22:00 YMGYRCH SEAL BAY (R) (S) (SC) (HD)

Ym 1983, daeth tref bysgota gysglyd yn Sir Benfro yn lleoliad annhebygol ar gyfer cynllwyn smyglo canabis rhyngwladol beiddgar gwerth miliynau. Pennod 1: mae ffermwyr a physgotwyr lleol Trefdraeth yn gwneud darganfyddiadau rhyfedd. Dynion mewn dillad rhyfedd yn crwydro dros dir fferm preifat ar ben clogwyni; offer morol drud a geir mewn cilfach na ellir ei chyrraedd ond mewn cwch, drws wedi'i guddio yng nghregyn traeth anghysbell arall, sy'n arwain at siambr danddaearol rhyfedd. Pwy, beth a pham?

In 1983 a sleepy Pembrokeshire fishing town became the unlikely setting for an audacious international cannabis smuggling plot worth millions. In episode one, the local farmers and fisherman of Newport make a series of strange discoveries. Oddly dressed men traipsing over private clifftop farmland. expensive marine equipment found at a cove only accessible by boat, and a hatch hidden in the shingle of another remote beach, which leads to a strange underground chamber. Who built it? And why?

23:00 BYD O LIW: CESTYLL - Dinas Brân (R) (S) (SC) (HD)

Cyfres sy'n dathlu cestyll Cymru drwy ddarluniau. Yn rhaglen olaf y gyfres mae'r diweddar cyflwynydd Osi Rhys Osmond yn ymweld â chastell Dinas Brân, Llangollen ac yn gwerthfawrogi llun rhamantus a breuddwydiol Richard Wilson o'r adfail. Eleri Mills a Dewi Tudur yw'r arlunwyr sy'n creu lluniau gwreiddiol newydd yn y lleoliad.

Series celebrating the castles of Wales through painting. In the last programme of the series, the late presenter Osi Osmond visits Dinas Brân Castle in Llangollen where Richard Wilson painted a romantic and dreamy interpretation of the shattered remains. Eleri Mills and Dewi Tudur create new paintings inspired by the castle.

23:35 DIWEDD/CLOSE

Gwybodaeth Rhaglenni Programme Information – S4C

Dydd Llun - Monday 24/11/2025

06:00 CYW (R) (HD)

Rhaglenni llawn hwyl i'r plant lleiaf.

Fun-filled programmes for younger viewers.

06:00 Y TRALALAS - Y Parc Chwarae (R) (S) (SC) (HD)

Mae Harmoni, Melodi a Bop yn darganfod holl gemau'r cae chwarae. Maen nhw hefyd yn chwarae mewn rhywbeth meddal sy'n dda i chwarae ynddo. Allwch chi feddwl be ydi o?

Harmony, Melody and Bop discover all the different games you can play at the playground. They even play in a pit full of something soft that's great for playing in... Can you guess what it is?

06:05 TŴT - yn Gweld Sêr (R) (S) (HD)

Mae Tŵt wrth ei fodd yn dysgu am y sêr gan yr Harbwr Feistr. Mae'n clywed bod modd canfod eich ffordd yn y nos wrth eu dilyn. Mae HP yn cynnig sialens i Tŵt. Mae'r ddau am gyfeiriannu yn y nos - Tŵt wrth ddilyn y sêr a HP gyda pheiriant arbennig ar ei gwch

The Harbour Master is teaching Tŵt about the stars and learns he could use the stars to help find his way at night. HP challenges Tŵt to an orienteering-by-night competition, HP with his computer and Tŵt with the stars.

06:20 JAMBORI (R) (S) (HD)

Croeso mawr i'r Jamborî! Ymunwch â Jam ar daith llawn synau, cerddoriaeth a lluniau lliwgar - bydd cysgodion yn dawnsio, robotiaid yn chwarae a ffrwythau yn symud, hyn a lot mwy ar Jamborî!

Come and join Jam on a musical adventure full of interesting sounds and colourful pictures where shadows dance, robots play and fruits move to the music! This and much more on Jamborî!

06:30 PENTRE PAPUR POP - Y Daith At Y Copa Cerddorol (R) (SC) (HD)

Ar yr antur popwych heddiw mae Twm yn darganfod chwilen arbennig sy'n gallu canu. Ond pan mae'r chwilen yn diflannu, all y ffrindiau greu cân eu hunain fel bod y chwilog yn gallu canu gyda nhw?

On today's popstastic adventure, Twm finds a very special singing bug! But when the bug disappears, can the friends create their own songs so the bugs can sing along?

06:45 CACAMWNCI - Siwpyrtaid 2 (R) (S) (SC) (HD)

Mae Cacamwnici yn ôl gyda mwy o sgetsys dwl a doniol! Cymeriadau newydd sbon fel Clem Clocsio, Myrddin y Dewin a Vanessa drws nesa, a rhai o'r ffefrynnau fel Plismon Preis, Siwpyrtaid a Mr Pwmps. Byddwch yn barod am lond bol o chwerthin!

Cacamwnici is back with more funny and silly sketches! There are new characters like Clem Clocsio, Myrddin y Dewin and Vanessa drws nesa and a few old favourites like Plismon Preis, Siwpyrtaid and Mr Pwmps. Be ready for a belly full of laughs!

07:00 YR WHWS - Diwrnod Gaeafol Whw (S) (SC) (HD)

Ar Ddiwrnod Gaeafol Whw mae Tomi eisiau rhoi anrheg o fwyd i'w ffrind sy'n aderyn bach brown, ond all yr Whws ddim dod o hyd iddo. Maen nhw'n n darganfod bod plu ieir gwyn y mynydd sef Tarmiganiaid yn newid i wyn yn y gaeaf i'w helpu i guddio yn yr eira.

On a special Wintery Woohoo Day Scotty wants to give a food present to a little brown bird friend but the Woohoos can't find it. They discover that ptarmigans' feathers change to white in winter to help them hide in the snow.

07:10 ANIFEILIAID BACH Y BYD (R) (S) (SC) (HD)

Cyfres i blant am anifeiliaid bach y byd. Y tro hwn: anifeiliaid fferm.

Series for children about the world's animals. This time: farm animals.

07:20 DREIGIAU CADI - Sinema (R) (S) (SC) (HD)

Mae'r dreigiau'n gyffrous, gan fod Cadi yn mynd â nhw i'r sinema. Mae angen help ar berchennog y sinema. Heb unrhyw staff a llwyth o waith i'w wneud mae angen i Cadi a'r dreigiau gael popeth yn barod ar gyfer y noson fawr, a phan maen nhw'n darganfod bod y ffilm wedi mynd ar goll, a all Bledd a Cef achub y dydd?

The dragons are excited, as Cadi is taking them to the cinema. The owner of the cinema needs help. With no staff and loads of work to do Cadi and the dragons need to get everything ready for the big night, and when they discover the film has gone missing, can Bledd and Cef save the day?

07:35 SAM TÂN - Lein Wib y Farn (R) (SC) (HD)

Mae Jams, Mandy a Norman gyda'i gilydd ar Arwr y Mynydd gyda Moose. 'Dyw Jams ddim mor anturus a Mandy a Norman sy'n sleifio i ffwrdd i drial Lein Wib y Farn.

Jams, Mandy and Norman are together on the Mountain Hero with Moose. Jams is not as adventurous as Mandy and Norman who sneak off to try the Lein Wib y Farn. What happens to Norman?

07:45 PARC GLAN GWIL (S) (SC) (HD)

Mae hi'n amser Eisteddfod Parc Glan Gwil ac mae Sioned Siop eisiau cystadlu. Gyda chymorth Syr Gwil mae hi'n dysgu sut i ddawnsio disgo a chael gwobr fawr am wneud.

It's time for the Parc Glan Gwil Eisteddfod and Sioned Siop wants to compete. With the help of Sir Gwil, she learns how to disco dance and gets a big prize for doing it.

08:00 CYW (HD)

Rhaglenni llawn hwyl i'r plant lleiaf.

Fun-filled programmes for younger viewers.

08:00 CYWION BACH - Welis (R) (S) (SC) (HD)

Mae gair heddiw'n rheswm gwych i fynd allan i chwarae gan mae 'welis' yw gair y dydd! Mae Bîp Bîp yn hapus yn sblashio gyda ffrind mewn pwll dŵr ac mae rhai o ffrindiau'r Cywion Bach yn mynd ar antur fwdlyd yn ei welis. *Today's word is a great reason to go out and play because 'Welis' is the word of the day! Bîp Bîp is happy splashing around in a puddle with her friend and some of Cywion Bach's friends go on a muddy adventure in their wellies.*

08:05 GUTO GWNINGEN - Hanes Clychau'r Gog (R) (SC) (HD)

Mae cynllun Guto i gasglu clychau'r gog gynta'r flwyddyn i'w fam yn cymryd tro annisgwyl pan mae'n dod o hyd i'r blodyn ar garreg drws Mr Cadno.

Guto's plan to collect the year's first bluebell for his mother takes an unexpected turn when he finds it on Mr Cadno's doorstep.

08:20 AWYR IACH (R) (S) (SC) (HD)

Ymunwch gyda Meleri a Huw wrth iddyn nhw grwydro Cymru a chael pob math o antur yn yr awyr agored. Heddiw, bydd Huw yn cwrdd a theulu sy'n mwynhau dringo, bydd rhai o ddisgyblion Ysgol Bro Teyrnnon yn gwneud ioga a bydd Meleri yn beicio ar y trac pwmp gyda Elis.

Join Meleri and Huw as they go on all sorts of adventures in the open air. Today, Huw will be meeting a family who love rock climbing, pupils from Ysgol Bro Teyrnnon will be doing yoga and Meleri will be cycling with Elis on the pump track.

08:35 PABLO - Triawd y Buarth (R) (HD)

Mae gan Pablo ei ffordd ei hun o weld y byd. Tra'n ymweld â fferm mae'n penderfynu ei fod eisiau bod yn anifail. All ei ffrindiau ei berswadio bod hi'n well iddo fod yn fo ei hun?

On a visit to a petting zoo, Pablo decides he'd like to be an animal. Can his friends persuade him it's better to be himself?

08:45 HELP LLAW – Tomi - Achub y bêl (R) (S) (SC) (HD)

Mae Harri yn cael galwad i ddweud bod cwch wedi torri yng Nglan Llyn. Yno hefyd mae Tomi wedi cicio pêl i'r llyn, ac mae Harri'n benderfynol o drwsio'r cwch er mwyn nôl y bêl

Harri gets a call to say that a boat has broken down in Glan Llyn. Tomi is there too and has kicked a ball into the lake! Harri is determined to fix the boat in order to retrieve the ball.

09:00 Y PITWS BYCHAIN - Straeon Gwersylla (R) (S) (SC) (HD)

Mae'r Pitws Bychain, Tada a Llywelyn yn eistedd ger y tân ac yn mwynhau stori Tada am y Bobo-Deuben! Mae Tada yn dweud mai dim ond stori wersylla hwyliog ydi hi, ond yw e'n dweud y gwir?

The Wee Littles, Pop-Pops and Mumford sit around a campfire at night engrossed in Pop-Pops story about the Two-Headed Woobie! Pop-Pops assures them it's all just a fun campfire tale, or is it...?

09:05 PATROL PAWENNAU - Cŵn yn achub tiwlips y Maer (R) (HD)

Pwy arall ond Maer Campus sydd yn dinistrio tiwlips Maer Morus y noson cyn y gystadleuaeth fawr?

Mayor Campus sabotages Mayor Morus's perfect petals for the tulip contest. Chase and Rocky to the rescue!

09:20 ODO - Anlwc! (R) (S) (SC) (HD)

Stori am dylluan bach sy'n credu yn ei hun.

Comedy driven stories about a little owl who believes in himself.

09:30 JONI JET - SbloetBot X (R) (SC) (HD)

Mae Joni wrth ei fodd gyda stynts! Ond pan mae bot danfon parseli'n mynd yn dw-lal, mae'n creu trafferthion mawr ar hyd a lled Dyffryn Dryswch...

Joni loves stunts! But when a parcel delivery bot goes haywire, it creates big problems all over Dyffryn Dryswch...

09:45 DEIAN A LOLI - ...a Becws y Coed (R) (S) (SC) (HD)

Cyfres am yr efeilliaid direidus a'u pwerau hudol. Mae Deian a Loli yn brysur creu cacen ar gyfer y ffair haf, hyd nes i rhywun ddwyn y rysâit! Felly mae'r ddau yn mynd i chwilio am y pobyddion barus sy'n byw yn yr hen dderwen i geisio cael y rysâit yn ôl!

Series about the mischievous twins and their magical powers. Deian and Loli are busy making a cake for the summer fair, that is until someone steals the recipe! The twins are told that it is the greedy bakers who are the thieves, so they go looking for them in the hope of getting their recipe back!

- 10:00 Y FFAIR AEAF - Bore Llun o'r Ffair (S) (HD) (EC)** CN/NS
1/9
Mae Nia Roberts a'r tîm yn ôl yng nghanol bwrlwm y Ffair Aeaf yn Llanelwedd. Cawn grwydro'r maes, cychwyn ar y siopa Nadolig a mwynhau holl gystadlu un o sioeau stoc gorau Ewrop. Sylwebaeth ac isdeitlau Saesneg ar gael.
Nia Roberts and the team are once again at the heart of the action at the Royal Welsh Winter Fair in Builth Wells. Let's roam the showground, get started on the Christmas shopping and enjoy the competing at one of the finest prime stock shows in Europe. English commentary and subtitles available.
- 12:00 NEWYDDION S4C A'R TYWYDD (S) (HD)**
Newyddion S4C a'r Tywydd.
S4C News and Weather.
- 12:05 Y FFAIR AEAF - Dros Ginio Llun o'r Ffair (S) (HD) (EC)**
Mwynhewch y cystadlu a'r crwydro yng nghwmni Nia Roberts a'r tîm yn fyw o Lanelwedd. Sylwebaeth ac isdeitlau Saesneg ar gael.
Enjoy the competing and browsing with Nia Roberts and the team live from Builth Wells. English commentary and subtitles available.
- 14:00 NEWYDDION S4C A'R TYWYDD (S) (HD)**
Newyddion S4C a'r Tywydd.
S4C News and Weather.
- 14:05 Y FFAIR AEAF - Prynhawn Llun o'r Ffair (S) (HD) (EC)**
Ymunwch â Nia Roberts a'r tîm yn y Ffair Aeaf wrth iddyn nhw fwrw golwg dros ganlyniadau'r dydd. Sylwebaeth ac isdeitlau Saesneg ar gael.
Join Nia Roberts and the team at the Winter Fair for a roundup of the day's competition results. English commentary and subtitles available.
- 16:00 AWR FAWR (HD)**
Rhaglenni ar gyfer y plant iau ar ôl ysgol.
Programmes for youngsters after school.
- 16:00 Y PITWS BYCHAIN - Penbleth Picnic (R) (S) (SC) (HD)**
Mae'r Pitws Bychain yn cael picnic! Maen nhw'n llawn cyffro wrth ddadbacio eu bwyd o'r fased. Ond arhoswch, i ble aeth y bwyd? Mae wedi diflannu!
The Wee Littles are having a picnic! They are very excited as they unpack the food from the basket. Wait, where did the food go, it's disappeared!
- 16:05 PENTRE PAPUR POP - Rhestr 'Ia'! (R) (SC) (HD)**
Ar yr antur popwych heddiw mae hi'n ddiwrnod pen-blwydd Twm! Ond pan mae Twm yn gofyn gormod, fydd y ffrindiau'n gallu rhoi diwrnod i'w gofio iddo?
On today's popstastic adventure, it's Twm's birthday! But when Twm's expectations are a little too high, will the friends be able to give him the birthday he wants?
- 16:20 ANIFEILIAID BACH Y BYD (R) (S) (SC) (HD)**
Dewch ar antur gyda ni i gwrdd ac anifeiliaid bach y byd. Yn y rhaglen hon y panda a'r macaw sy'n cael y sylw.
Come with us on an adventure to meet some of the world's lovely animals. In this programme we get to know the panda and the macaw.
- 16:30 GUTO GWNINGEN - Hanes y Cyrch Mwyaf Erioed (R) (SC) (HD)**
Pan mae Guto Gwningen yn clywed am ladrad mwya' ei dad, mae'n cynllunio ei ladrad ei hun i ddwyn berfa Mr Puw yn llawn tatws!
When Guto Gwningen hears about his father's greatest heist, he embarks on his own robbery - Mr Puw's entire wheelbarrow of potatoes!

16:45 PARC GLAN GWIL (R) (S) (SC) (HD)

Mae Syr Gwil yn trefnu parti pwll nofio i'r criw i ddiolch iddyn nhw am eu gwaith caled, ond mae Dion Diogelwch yn ofnus, all o ddim nofio. Gyda help ei ffrindiau daw i sylweddoli nad oes angen bod ofn dwr ac mae'n dysgu nofio.

Syr Gwil organises a swimming pool party for the crew to thank them for their hard work, but Dion Diogelwch is scared, he can't swim. With the help of his friends he comes to realise that there is no need to be afraid of water and he learns to swim.

17:00 STWNSH (HD)

Rhaglenni gwyb a digon o hwyl a sbri ar gyfer plant ar fore Sadwrn.

Fun, laughter and brilliant programmes for youngsters on Saturday mornings.

17:00 DREIGIAU: GWARCHODWYR BERC - Sgriliolaeth: Rhan 1 (R) (HD)

Pan mae'r criw yn darganfod draig wedi ei chladdu yn y rhew mae Igon a Sgodraed yn sylweddoli mai Sgril ydy e, sef draig y Lloerigion. Yn anffodus mae'r bloc o rew sy'n cynnwys y Sgril yn cael ei warchod gan Yr Efeilliaid a Snotfawr. Cyn bo hir mae'r sgril wedi dadmer a dianc o Berc. Mae'n rhaid i Igon geisio ei gael yn ôl cyn i Dagr cael ei ddwylo arni.

The crew find a dragon buried in the ice. It is Sgril, the Lloerigion's dragon. Can Igon rescue it after it escapes or will Dagr beat him to it?

17:25 BOOM BANG! - Ysgol Castell-nedd (S) (SC) (HD)

Aled Bidder a Heledd Roberts sy'n cyflwyno cyfres ffrwydrol gyda dau dîm yn brwydro'n erbyn ei gilydd mewn heriau gwirion gwyddonol.

Aled Bidder and Heledd Roberts present an explosive series with two teams battling each other in a mad science gameshow.

17:45 NEWYDDION NI (S) (SC) (HD)

Newyddion i bobl ifanc.

News programmes for youngsters.

18:00 CAEAU CYMRU - Tremarchog Sir Benfro (R) (S) (HD)

Ar fferm Ynys Deullyn yn Nhremarchog, Gogledd Sir Benfro y bydd Brychan Llyr a Rhian Parry yr wythnos hon. Yn y gongl yma o'r wlad, lle gelwir cae yn 'barc', mae tafodiaith yr ardal yn treiddio drwy'r enwau a ddefnyddir yn lleol i ddisgrifio'r dirwedd. Ceir maen hir diddorol mewn un cae, a chredir iddi unwaith gael ei defnyddio i ddilyn symudiad yr haul yn ystod y flwyddyn. Mae enw cae arall ar y fferm yn datgloi hanes hen arferiad o'r diwydiant gwlân lleol.

We are at a farm called Ynys Deullyn, in St Nicholas, north Pembrokeshire for today. In this part of the country, a field is called a 'parc', and the local dialect permeates the names used to describe the landscape. There is a large standing stone in one field, and it is believed that it was once used to follow the movement of the sun, as a primitive calendar. Another field name describes an old tradition, drying flannel in the fields - part of the local woollen industry.

18:30 ROWND A ROWND (R) (S) (AD) (HD)

Mae'n benblwydd Lea'n 18 oed, ac er bod Mathew'n deall bod ganddo ferch aeddfed a chall, mae'n gobeithio bod hi'n mynd i ymddwyn felly wrth fynd allan i ddathlu. Dydy Britney ddim yn aeddfed na chall, ac mae'r llanast mae hi wedi'i adael ar ôl yn y Caffi a'r Siop yn cynyddu, heb sôn am y llanast mae hi'n ei achosi i Dani a Jason. Efo'u priodas ar y gorwel, ac wrth drio bod yn onest a chall am y digwyddiad efo Kay, mae Vince yn mynd i ddwr poeth efo Gwenno. Gydag isdeitlau Saesneg ar y sgrîn.

It's Lea's 18th birthday, and although Mathew understands that he has a mature and smart daughter, he hopes that she's going to behave like that when she goes out to celebrate. Britney is neither mature nor sensible, and the mess she has left behind in the Cafe and Shop is increasing, not to mention the mess she is causing for Dani and Jason. With their wedding on the horizon, and while trying to be honest and smart about the incident with Kay, Vince finds himself in hot water with Gwenno. With on-screen English subtitles.

18:57 NEWYDDION S4C (S) (HD)

Newyddion S4C a'r Tywydd. Gydag isdeitlau Saesneg ar y sgrîn
S4C News and Weather. With on-screen English subtitles

19:00 HENO (S) (HD)

